OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1409 (Cy.169)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Tenantiaethau Sicr (Diwygio'r Trothwy Rhent) (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *2 Mehefin 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *6 Mehefin 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Rhagfyr 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 1(2A) o Ddeddf Tai 1988(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy o ran Cymru(**2**):

(**1**) 1988 p.50. Mewnosodwyd adran 1(2A) gan reoliad 2 o Reoliadau Cyfeiriadau at Ardrethu (Tai) 1990 (O.S. 1990/434) a pharagraff 27 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hynny.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 1(2A), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); *gweler* y cofnod ar gyfer Deddf Tai 1988 yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.